**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**18 Gorffennaf 2016**

**YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD I GEFNOGI'R AMCANION DRAFFT GWELLA A LLESIANT 2017-18**

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

**Diben yr Adroddiad**

1 Adolygu'r ymatebion i strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r Cynllun i Leihau Risg a Gwella 2016-17 er mwyn goleuo'r gwaith o ddylunio strategaeth ar gyfer ymgynghori ynghylch Amcanion drafft Gwella a Llesiant 2017-18.

**Cefndir**

2 Dan Fesur Llywodraeth Leol 2009, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel un o'r Awdurdodau Gwella Cymreig, wneud y canlynol:

- Penderfynu ar ei amcanion gwella ei hun dan unrhyw un o saith elfen sydd wedi eu diffinio ar gyfer gwella. Er bod gofyn iddo osod amcanion gwella bob blwyddyn, nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid i'r amcanion newid bob blwyddyn, nac ychwaith fod yn rhaid eu cyflawni o fewn blwyddyn;

- Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei amcanion am gyfnod o amser. Nid oes amser penodol ar gyfer ymgynghoriadau, ond rhyw 12 wythnos y mae'r rhan fwyaf yn ei bara. Rhaid i'r ymgynghoriadau gael dyddiad cychwyn a dyddiad cau pendant.

## Gwybodaeth

3 Er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau statudol, rhoddodd yr Awdurdod gefnogaeth i strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gyfer 2016-17 i geisio annog rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y gwaith o lunio dyfodol gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.

4 Diben y strategaeth ymgynghori oedd nodi sut y gallai aelodau ATAGC gael barn y cyhoedd ar eu hamcanion drafft cyn dewis y ffordd ymlaen ar gyfer dyfodol gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.

5 Roedd y broses yn bwysig wrth lunio'r amcanion drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi yn y Cynllun i Leihau Risg a Gwella ac er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd yn y penderfyniadau a wneir.

6 Goleuwyd y strategaeth gan Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyfranogaeth Cymru (2011):

- cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth
- annog a galluogi pawb yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny
- cynllunnir a chyflwynir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol
- gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol
- ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall
- ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan
- galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol
- rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol
- mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad
- dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu.

## Gwerthuso'r Broses Ymgysylltu ar gyfer 2016-17

7 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar amcanion gwella 2016-17 rhwng 24 Medi ac 11 Rhagfyr 2015.

8 Lluniwyd dogfen ymgynghori dan y teitl 'Eich Gwasanaeth Chi, Eich Dewis Chi' i esbonio cynlluniau'r Gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, a gwahoddwyd pobl i roi eu barn ar bedwar cwestiwn allweddol yn ymwneud â 'Sut i gynnal Gwasanaethau Tân ac Achub fforddiadwy a rhagorol yng Ngogledd Cymru yn 2016-17 a'r tu hwnt'. Roedd pobl yn gallu gwneud hyn drwy ddilyn dolen i holiadur electronig ar 'hwb' ymgynghori.

Tynnodd y Gwasanaeth sylw at yr ymgynghoriad drwy nifer o ffyrdd gwahanol:

- Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghorol ar wefan yr Awdurdod, a rhoddwyd gwybod yn electronig ei bod ar gael i randdeiliaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys sefydliadau sy'n bartneriaid inni ac sydd yn ein cronfa ddata.
- Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad. Cyrhaeddodd negeseuon Facebook gyfanswm o 33,925 o gyfrifon (19,721 yn Gymraeg ac 14,204 yn Saesneg) a chliciodd 500 ar y neges i ddarllen mwy (211 yn Gymraeg a 289 yn Saesneg) a chliciodd 196 ar 'hoffi', 'sylw' neu 'rannu' (107 yn Gymraeg ac 89 yn Saesneg).
- Cafodd negeseuon trydar eu gweld gan gyfanswm o 25,586 o gyfrifon (11,656 yn Gymraeg a 13,930 yn Saesneg) ac o'r rheini fe wnaeth 210 o gyfrifon ryngweithio â negeseuon (29 yn Gymraeg a 181 yn Saesneg).
- Ymatebodd cyfanswm o 180 o bobl drwy'r holiadur ar-lein ar yr 'hwb' ymgynghori (13.3% yn Gymraeg ac 86.7% yn Saesneg). Ond mewn gwirionedd tynnodd llawer o ymatebwyr allan yn ystod y broses felly roedd y gyfradd ymateb yn nes at 150 o bobl.
- Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd yn y modd hwn rhwng 45-54 oed (26.4%) a 25-34 (20.7%), gyda 57% o'r ymatebwyr yn ddynion a 36.4% yn ferched.
- Cynhyrchwyd fideo dwyieithog i esbonio a darlunio'r ymgynghoriad mewn ffordd haws i'w deall, i gefnogi'r ddogfen ymgynghori fanylach. Gwelwyd y fideo 24 o weithiau (57 yn Gymraeg a 189 yn Saesneg).

- Ymddangosodd erthyglau ar yr ymgynghoriad yn y papurau newydd dyddiol ac wythnosol lleol yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, yn ogystal â chael sylw ar newyddion y BBC (darlledu ac ar-lein)
- Darparwyd sesiynau briffio wyneb yn wyneb ar gyfer pob cyngor sir yng Ngogledd Cymru a ofynnodd am un.
- Yn ogystal â'r holiadur ar-lein, daeth naw o ymatebion ysgrifenedig i law drwy'r e-bost a'r post.
- Gofynnwyd i Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub fynd ati i annog rhanddeiliaid i gymryd rhan.
- Darparwyd gwybodaeth i'r staff mewn dewis iaith, Cymraeg neu Saesneg drwy gyfrwng y fewnrwyd, cylchlythyr/cylchgrawn y staff, diweddariad/briff y Prif Swyddog Tân, briffiadau mewnol ac ymweliadau â gorsafoedd – pryd y gwelwyd bod y fideo'n arbennig o effeithiol.

9 Cafodd yr ymgynghoriad nifer gymharol uchel o ymatebion o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol pryd y cafwyd 30 o ymatebion ar gyfartaledd, ond nid cymaint o ymatebion â'r llynedd (291 o ymatebion). Cafwyd ymatebion gan groestoriad eang o bobl a oedd yn cynnwys rhaniad cytbwys rhwng gweithwyr y gwasanaeth a phobl eraill.

10 Roedd y strategaeth yn fesuradwy, sef bod gan bob un o'r prif sianelau cyfathrebu ei metrigau gwerthuso penodol ei hun. Canfuwyd y cynulleidfaoedd targed drwy fapio rhanddeiliaid a oedd yn cwmpasu trigolion Gogledd Cymru, sefydliadau sy'n bartneriaid inni, Llywodraeth Cymru, gwleidyddion lleol, staff y gwasanaeth.

## Dylunio strategaeth Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd ar gyfer 2017-18

11 Mae'r strategaeth a argymhellir ar gyfer 2017-18 yn seiliedig ar fabwysiadu'r elfennau mwyaf llwyddiannus o strategaeth 2016-17 ond gan gadw mewn cof y pedwar amcan gwella drafft sydd nawr yn cynnwys amcan newydd ar gyfer y gyllideb tymor canolig mewn perthynas â gostyngiad arfaethedig yn y gwasanaethau yn y dyfodol.

12 Mae'r strategaeth a argymhellir yn canolbwyntio felly ar y canlynol:

- cynnal dadansoddiad o randdeiliaid i ganfod pwy i ymgysylltu â nhw, ac i fabwysiadu dulliau priodol o ymgysylltu â'r rhai a ganfyddir

- mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau a ffyrdd o gyfathrebu a fydd yn galluogi pobl i ddewis sut yr hoffent gymryd rhan a rhoi eu barn

- osgoi iaith sy'n anodd i'w deall, gan gadw gwybodaeth yn fyr a syml gan beidio â gor-gymhlethu.

13 Bydd y strategaeth yn cynnwys ymgysylltu'n ansoddol drwy holiadur ar-lein ar yr hwb ymgynghori y tynnir sylw ato ar wefan y Gwasanaeth a'r cyfryngau cymdeithasol. Bydd copïau papur ar gael yn y prif leoliadau cyhoeddus. Bydd fideo dwyieithog syml ar gyfer cynulleidfa eang yn cael ei gynhyrchu i helpu i esbonio'r materion sy'n gysylltiedig â'r amcanion drafft.

14 Bydd ymgysylltu ansoddol yn cael ei annog drwy ymgysylltu wyneb yn wyneb yng nghyfarfodydd cynghorau a thrwy sefydlu panel ymgynghori, defnyddio'r paneli sy'n bodoli eisoes yn rhanbarth y gwasanaeth a datblygu panel ar-lein drwy wefan y Gwasanaeth. Defnyddir cronfa ddata sy'n bodoli eisoes o bobl sy'n dymuno cael gwybodaeth am weithgareddau'r Gwasanaeth. Bydd panel ymgynghori GTAGC ei hun yn cael ei helaethu dros y blynyddoedd i ddod.

15 Mae'r dull yn adlewyrchu'r ffaith fod Amcanion Gwella 2017-18 yn rhan o strategaeth bedair blynedd ehangach, ac ni ddisgwylir i rai o'r cynigion ddod i rym am nifer o flynyddoedd. Ceir cyfle pellach felly i ymgynghori'n eang yn ystod y blynyddoedd nesaf.

16 Gwneir mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gan gynnwys cyfeirio pobl at yr holiadur ar-lein a chanolbwyntio ar amcanion arbennig dros gyfnodau penodol gan annog ymateb uniongyrchol gan gefnogwyr Facebook a dilynwyr Twitter y Gwasanaeth.

17 Caiff gwahanol elfennau'r strategaeth eu gwerthuso'n llawn, a chyflwynir y canlyniadau a ddadansoddir i'r Awdurdod er mwyn cynorthwyo i oleuo penderfyniadau ynghylch yr amcanion drafft gwella a llesiant.

## Argymhellion

18 Bod yr Aelodau'n:

(i) nodi llwyddiant strategaeth ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ar gyfer 2016-17;

(ii) cefnogi'r strategaeth ymgynghori ar gyfer amcanion drafft gwella a llesiant 2017-18.